

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Mawrth 3ydd, 2016 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Ifor W Davies, (Cadeirydd); Dafydd Williams; Aled Lloyd Evans; Gwilym M Thomas; Margaret Griffith; Sian Angharad Parry; Elis Gwyn Jones a William Ifor Hughes.

a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau. Y Cyngorwyr Marian Evans (Is gadeirydd); Naomi Jones; Trefor W Jones; Alwen Evans a Thomas Prys Jones.

2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Chwefror 4ydd, 2016.

3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

4. Datgan buddiant personol. Y Cyngorydd William Ifor Hughes yn datgan diddordeb yng nghais cynllunio Dolydd 4 Glasfryn Terrace, Pencaenewydd, rhif 6-1 ar y rhaglen waith achos mae'n gymydog i'r ymgeisydd; y Cyngorydd Aled Lloyd Evans yn datgan diddordeb yn rhif 5-4, cyflwr y Lôn Goed ar y rhaglen waith achos mae'n berchen rhan fach o'r Lôn Goed.

5. Cyngor Gwynedd.

1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned, cyflwr y ffordd rhwng Groeslon Dulwyn hyd at Lwyn Dwyfog. Mae'r Cyngor Sir yn ymwybodol o gyflwr gwael y ffordd yma ond oherwydd y sefyllfa gyllidebol bresennol ddim yn gallu rhoi addewid y bydd y ffordd yma yn cael sylw megis ail-wynebu/arwisgo ond bod y ffordd yn cael ei harchwilio yn unol â Chynllun Cynnal Asedau Priffyrdd y Cyngor. Derbyniwyd.

2. Rheoleiddio; Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd, Cau'r Briffordd rhwng Llanarmon a Groeslon Tŷ Newydd. Doedd y Cyngor yma ddim yn fodlon ar yr ateb gafwyd. Doedd yr eglurhad ar y gwahaniaeth rhwng Adran 14 (1), cau ffordd drwy orchymyn traffig ac Adran 14 (2), cau ffordd drwy rybudd ddim yn ateb ymholiad y Cyngor yma pam nad oedd arwyddion bod y ffordd ar gau. Gofynnwyd am i ymholiad pellach gael ei wneud. Yn dilyn sgwrs ar y ffôn gyda'r Swyddog sefydlwyd nad oedd y Cyngor Sir wedi derbyn unrhyw gwynion; mai cyfrifoldeb y cwmni oedd yn gwneud y gwaith oedd gosod arwyddion ac addawodd y Swyddog y byddai'r Cyngor Sir yn cadw golwg pe codai sefyllfa debyg eto.

3. Cefnogaeth Gorfforaethol; cyfarfod ym Mhlas Heli, Pwllheli, nos Fawrth, Mawrth 15fed, 2016. Bydd y Cyngorwyr Margaret Griffith, Dafydd Williams, Naomi Jones, Aled Lloyd Evans, Sian Angharad Parry, Alwen Evans a'r Clerc yn mynd i'r cyfarfod yma.

Roedd Llythyr wedi'i anfon at Arweinydd a Dirprwy Arweinydd Cyngor Gwynedd yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw argymhelliad gan Gyngor Gwynedd i roi gorau i redeg Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy. Derbyniwyd.

4. Gohebiaeth oddi wrth Uwch Swyddog Hawliau Tramwy ynghylch cyflwr y Lôn Goed yn dilyn llythyr i'r Cyngor yma oddi wrth Mrs Ann Thomas, Maes Gwyn Isaf, Lôn Goed ac hefyd llwybr 88 yn Afonwen. Mae'r llwybr i'r traeth yn Afonwen wedi'i gau yn dilyn y stormydd diweddar rhag i rywun syrthio drosodd i'r traeth achos does dim twyni tywod yno bellach. Mae Swyddogion y Cyngor Sir am fynd i weld Y Lôn Goed

ddechrau'r wythnos nesaf. Derbyniwyd. Deallir bod y bontbren ar Lwybr yr Arfordir i'r dde o draeth Afonwen i gyfeiriad Hafan y Môr mewn cyflwr gwael. Penderfynwyd anfon y wybodaeth ymlaen i'r Cyngor Sir ac anfon copi i Glerc Cyngor Cymuned Llannor.

5. Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Gwynedd a Môn; Cofrestr Newidiadau â Ffocws i'r Cynllun Adnau. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd gofyn, dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, faint mae'r holl waith yma wedi'i gostio hyd yma a faint mae'n debygol o gostio eto.

6. Cyngor Gwynedd – 1. Cais rhif C16/0091/41/LL- Cais i godi tŷ ar safle eithrio gwledig; Tir ger Y Dolydd, 4 Glasfryn Terrace, Pencaenewydd. Wedi derbyn llythyr gwrthwynebiad gan drethdalwyr i'r cais yma. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd gwrthwynebu'r cais yma achos mae'r ffordd sydd yn mynd heibio'r tai cyfagos yn anaddas a gall y tir orlifo ac effaith hynny ar y tai cyfagos.

2. Cais rhif C16/0015/41/LL – Adeiladu storfa pit silwair; Hendy, Ynys. Cefnogwyd y cais yma.

3. Cais rhif C16/0170/41/LL – Diwygiad o gais a wrthodwyd o dan C15/1163/41/LL; Glan Dwyfor, Llanystumdwy. Penderfynwyd cefnogi.

7. Dim ymateb i'r hysbysiad yn Rhoslan ac ar safle we'r Cyngor yn gofyn am fynegi diddordeb mewn bod yn Gynghorydd dros Ward Rhoslan ar Y Cyngor, felly angen cyfethol Cynghorydd dros Ward Rhoslan. Penderfynwyd meddwl am berson addas a chysylltu gyda'r Clerc.

8. Heddlu Gogledd Cymru; Tim Plismona Cymdogaeth De Gwynedd. Penderfynwyd estyn gwahoddiad i gynrychiolydd o'r Heddlu ddod i gyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol agos.

9. Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambrian. Derbyniwyd y wybodaeth y bydd y Cynghorau Tref/Cymuned sydd â lein y rheilffordd yn rhedeg drwy eu wardiau yn aelodau o Bwyllgor Rheilffordd y Cambrian. Gofynnwyd i'r wybodaeth anfonwyd at Network Rail ar Dachwedd 24ain, 2015 ynghylch erydiad a difrod i'r shuttering rhwng traeth Afonwen a fferm Glanllynau gael ei anfon ymlaen i Gynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambrian.

10. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Llanystumdwy

Chwilog/Rhoslan

Dŵr dyfn dros wyneb y ffordd rhwng Tyddyn Crythor a Betws Fawr. Penderfynwyd anfon llythyr ynghylch hyn at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.

Llangybi:

11. Derbyniwyd y llythyrau/e byst yn diolch am gyfraniadau ariannol oddi wrth:

1. Eisteddfod Gadeiriol Chwilog.
2. Mynwent Capel Helyg.
3. Aelwyd Chwilog.
4. Cyngor ar Bopeth.
5. Gŵyl Gerdd Dant Llŷn ac Eifionydd 2016.
6. Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy 2016.

7. Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen.
8. Cymdeithas Parêd Dewi Sant, Pwllheli.
9. Canolfan Awyr Airbase.
10. Mynwent Newydd Llanystumdwy.
11. Cylch Meithrin Chwilog.
12. O Ddrws i Ddrws.

12. Cyngor Gwynedd; ad daliad arian llwybrau, £955-. Derbyniwyd.

13. Adroddiad ariannol ar lafar. Penderfynwyd derbyn.

14. Anfonebau angen eu talu:

a. Mr Gareth Jones, cadw safle bedd David Lloyd George yn daclus, £240-.

Penderfynwyd ei dalu, taliad siec rhif 100928.

b. Cyllid a Thollau EM; £171.80c.(Gweinyddu). Penderfynwyd ei dalu, taliad siec rhif 100929.

c. Cyflog Chwarterol y Clerc, £687.20c net.(Gweinyddu).Penderfynwyd ei dalu,taliad siec rhif 100930.

Ch. Costau Chwarterol y Clerc, £68.07c. (Gweinyddu). Penderfynwyd ei dalu, taliad siec rhif 100931..

d. Neuadd Llanystumdwy, am gael defnyddio'r Neuadd ar gyfer dau gyfarfod o'r Cyngor, £30-. Penderfynwyd ei dalu,taliad siec rhif 100932.

*Trwy ganiatad y Cadeirydd

dd. Neuadd Goffa Chwilog, am gael defnyddio Ystafell Myrddin ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor (7), £94.50c. Penderfynwyd ei dalu, taliad siec rhif 100933.

15. Llochesi bws yn y gymuned (9); Cytundeb 3 blynedd i'w glanhau 4 gwaith y flwyddyn. Penderfynwyd gofyn am brisiau i Spick and Span, Nefyn Cleaning Services Ltd. a Atkin Groundworks Ltd.

16. Cadw safle bedd D Lloyd George yn daclus yn ystod y tymor. Penderfynwyd gofyn i Mr Gareth Jones wneud y gwaith eto'r tymor yma; deallir mai £10- yr awr fydd y gost eto eleni.

*Trwy ganiatad y Cadeirydd

17. Llythyr oddi wrth y Cynghorydd Selwyn Griffiths, Cyngor Gwynedd ynghylch cau Swyddfa Treth Incwm Tŷ Moelwyn, Porthmadog a symud y gwasanaeth cyfrwng Cymraeg i Gaerdydd. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd anfon llythyrau gwrthwynebiad i gau Swyddfa Porthmadog, llythyr Cymraeg at Alun Cairns, AS Swyddfa Cymru yn Llundain ac yng Nghaerdydd, a llythyr dwyieithog at David Gauke, Ysgrifennydd Ariannol i'r Trysorlys yn Llundain.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.

